**Y Pwyllgor Deisebau**

—

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

6 Ionawr 2026

Annwyl Llyr,

## Deiseb P-06-1552 Rhoi'r gorau i adeiladu 'ffermydd' solar diwydiannol yn agos at adeiladau preswyl ac o fewn ffiniau pentrefi.

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 8 Rhagfyr a bu'n trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Cai Williams.

Nododd yr Aelodau fod ystyriaeth barhaus yn cael ei rhoi i leoliad paneli solar, gan fynegi eu cydymdeimlad â phryderon y trigolion lleol. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd nodi bod hwn yn fater i'w drafod â'r awdurdodau cynllunio priodol. Cytunodd yr Aelodau y dylid tynnu eich sylw chi, yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, at y ddeiseb.

Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac i ddiolch i'r deisebydd.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a ddaeth i law a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: Deiseb P-06-1552 Rhoi'r gorau i adeiladu 'ffermydd' solar diwydiannol yn agos at adeiladau preswyl ac o fewn ffiniau pentrefi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb drwy e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Carolyn Thomas AS
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.